Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint 2022

Cynhaliwyd Eisteddfod llwyddiannus a chroesawgar eleni eto ar ddydd Sadwrn, Hydref 29. Cafwyd cystadlu brwd yn y cyfyngedig a'r agored gyda phlant a phobol ifanc o ardaloedd eang yn cystadlu. Beirniaid eleni oedd Cerdd - Miss Lowri Elen Jones Llanbed, Llefaru - Miss Elliw Dafydd, Silian, Llên - Mr Mathew Kerrith, Pembre, â'r tri wrth eu bodd yn ein cwmni, Arlunio - Mrs Pauline Hinton, Dolwen a'r Llawysgrifen - Mrs Anne Thomas, Llyscothi. Ein ffrind annwyl Mr Jonathan Morgan, Y Tymbl oedd yn cyfeilio eleni eto. Llywydd y prynhawn oedd Mrs Eirlys Jones, 2 Bronfrena, Caio, a'r hwyr oedd Mrs Mair Williams, Glynglas, Porthyrhyd. Dymuniad Eirlys oedd peidio siarad ond er hynny darllennodd y cadeirydd Dewi Edwards eiriau ar ei rhan. Roedd hi'n cofio nôl pan oedd y plant yn mynchu 'r eisteddfod o ysgol Caio, ond erbyn heddi mae'r ysgol wedi cau - colled i'r ardal a chefn gwlad. Yn araith Mair aeth â ni nôl dros y blynyddoedd fel 'roedd hi a theulu Gwargorof yn cystadlu yn yr eisteddfod, a hyd heddi maent yn dal i gystadlu. Eleni, merch Mair, Ina oedd yn arwain yn yr adran cyfyngedig a Thlws yr Ifanc, a gor-wyres i Dewi a Ruth enillodd ar yr unawd dan 21 a thlws am y mwyaf addawol yn yr adran gerdd. Diolch i'r ddwy am y rhoddion hael a'r geiriau pwrpasol. Cafwyd seremoni hyfryd Tlws yr Ifanc dan arweiniad Mrs Ina Morgan, Bronglyn, a gymerodd le Mr John Rhys Evans, Glastir a oedd ar y pryd yn ysbyty Glangwili - dymunwn wellhad buan iddo. Enillydd y Tlws, yn rhoddedig gan Mr a Mrs Alun Williams, Rhydlydan, oedd Rebbecca Rees, Bwlchyfadfa, sydd ar ei blwyddyn olaf yn Ysgol Bro Teifi. Cyflwynwyd blodyn yr un iddi gan Erin Edwards, Bryncothi ac Angharad Jones, Dyffryn. Cawsom seremoni gadeirio o dan ofal medrus Mr Lyn Richards, Maesglas, Caio. Rhoddwyd y gadair eleni gan Gwmni LAS, Llanbed. Enillwyd y gadair hardd o waith David a Deian Thomas, Caerdderwen am delyneg ar y testun "Ffoadur" gan Mr John Richard Williams, Llangefni, ond oherwydd amgylchiadau teuluol 'roedd yn methu bod yn bresennol. Gorffennwyd y seremoni trwy ganu Hen Wlad fy Nhadau. Dymuna'r swyddogion, Cadeirydd - Dewi Edwards, Maesmoi, Is Gadeirydd - John Rhys Evans, Glasdir, Ysgrifenyddion - Eiddwen Jones, Gwarnoethle a Tina Morris, Ysgubor Fawr, Trysoryddion - Marina Thomas, Caerdderwen a Mair Williams, Rhydlydan ddiolch i'r cystadleuwyr, rhoddwyr, arweinwyr ac i bawb arall am eu gwaith a'u cefnogaeth. Diolch hefyd i Ymddiriedolaeth Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Cyngor Sir Gâr a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru am eu nawdd eleni eto.

Rhestr o'r buddugwyr:

<u>Cyfyngedig:</u>
Llefaru dan 6: 1. Iori O'Connor, Cwrtycadno
Unawd dan 6: Iori O'Connor
Llefaru 6 a dan 8: 1. Elan Douch, Cwmann, 2. Mabli Lewis Daily, Pumsaint
Unawd 6 a dan 8: 1. Elan Douch 2. Mabli Lewis Daily 3. Gruff Morgan Pexton, Cwrtycadno
Alaw Werin (ysgol gynradd): 1. Mabli Lewis Daily 2. Elan Douch 3. Gruff Pexton a Iori O'Connor
Canu Emyn (ysgol gynradd): 1. Elan Douch 2. Mabli Lewis Daily 3. Gruff Pexton
Unawd ar unrhyw offeryn cerdd (ysgol gynradd): 1. Mabli Lewis Daily
Parti canu dan 19: "Ffrindiau" Elan, Mabli, Gruff a Iori
Unawd 12 a dan 19: 1. Brychan Williams, Llanbed
Deuawd dan 19: Elan a Mabli
Alaw Werin (ysgol uwchradd): 1. Brychan Williams
Canu Emyn (ysgol uwchradd): 1. Brychan Williams

<u>Cystadlaethau Agored:</u>
Llefaru dan 6: 1. Tryfan Phillips, Talsarn
Unawd dan 6: 1. Tryfan Phillips
Llefaru 6 a dan 8: 1. Sara Lewis, Mydroilyn 2. Greta Ann Jones, Caerfyrddin 3. Bethan Haf Llywelyn, Llanwnnen
Unawd 6 a dan 8: 1. Sara Lewis 2. Greta Ann Jones
Llefaru 8 a dan 10: 1. Gruff Rhys Davies, Llandyfyriog 2. Celyn Fflur Davies, Llandyfyriog 3. Elliw Grug Davies, Llanybydder
Unawd 8 a dan 10: 1. Gruff Rhys Davies 2. Miriam Elsie, Cwmgwaun
Llefaru 10 a dan 12: 1. Gwennan Owen, Llanllwni 2. Delun Ebenezer, Cellan
Unawd 10 a dan 12: 1 Gwennan Owen; 2 Delun Ebenezer.
Canu Emyn dan 12: 1. Gwennan Owen 2. Delun Ebenezer 3. Sara Lewis a Gruff Rhys Davies
Unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12: 1. Gwennan Owen
Unawd Alaw Werin dan 12: 1. Gwennan Owen 2. Gruff Rhys Davies 3. Miriam Elsie
Unawd Cerdd Dant dan 12: 1. Gwennan Owen 2. Gruff Rhys Davies 3. Miriam Elsie
Llefaru 12 a dan 16: 1. Alwena Owen, Llanllwni
Unawd 12 a dan 16: 1. Brychan Williams, Llanbed 2. Alwena Owen
Cân allan o Sioe Gerdd: 1. Alwena Owen 2. Gwennan Owen
Unawd 16 a dan 21: 1. Eiriana Jones Campbell, Caerdydd
Ateb 6 Cwestiwn dan 19: 1. Gwennan Owen 2. Cai Campbell, Caerdydd 3. Alwena Owen
Darllen darn o'r Ysgrythur dan 21 ar y pryd: 1. Alwena Owen 2. Gwennan Owen
Unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 21: 1. Alwena Owen
Canu Emyn 12 a dan 21: 1. Brychan Williams 2. Alwena Owen
Deuawd Emyn dan 21: 1. Alwena a Gwennan

Alaw Werin 12 a dan 21: 1. Alwena Owen 2. Brychan Williams
Cân allan o Sioe Gerdd dan 21: 1. Eiriana Jones Campbell
Cerdd Dant 12 a dan 21: 1. Alwena Owen
Sgen ti Dalent: 1. Eryl Morgan, Ffaldybrenin 2. Rhiannon O'Connor, Cwrtycadno
Stori a Sain: 1. Gwennan ac Alwena Owen; Marina Thomas Caerdderwen a Tina Morris, Ysubor Fawr
Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd: 1. Megan Richards, Aberaeron 2. Maria Evans, Rhydargaeau 3. Tina Morris
Parti: Adar y Nos, Pumsaint
Her Adroddiad dros 21: 1. Maria Evans

Mwyaf addawol dan 21
Adran gerdd - Tlws Steffan a Carys, Bronglyn: Eirianwen Jones Campbell, Caerdydd
Adran llefaru - Tlws Luned a Glyn, Felin Aeron: Alwena Owen Llanllwni

Tlws yr Ifanc dan 25
1. Rebbecca Rees, Bwlchyfadfa 2. Rebbecca Rees 3. Sara Jones, Drefach Felindre

Llenyddiaeth
Telyneg: John Richard Williams, Llangefni
Englyn: John Griffith, Abergele
Brawddeg: John Meurig Edwards, Aberhondd
Emyn: Megan Richards, Aberaeron
3 Dihareb Newydd: Megan Richards
Gorffen Triban: John Meurig Edwards
Gorffen Limrig: Eryl Mathias, Tynwern
Beddargraff: Mari Morgan, Llanrhystud
Llythyr Caru: Megan Richards
Limrig y Dydd: Dylan Lewis, Cwmann
Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg: Parch Aled Williams, Llanllwni